

## CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, A.M. Collins, C. Iannuccu, J.M. Norman a N.J. Wood.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) a L. Newton (Caerdydd a'r Fro Gweithredu dros Iechyd Meddwl).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

### 883 CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol”.

### 884 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorwyr S.C. Lloyd-Selby (Is-Gadeirydd) a I. Buckley.

### 885 PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG –

Yn absenoldeb nifer o gynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol yn y cyfarfod, yr oedd

CYTUNWYD – Gohirio'r penodiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### Rheswm dros y penderfyniad

Yn absenoldeb Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol yn bresennol yn y cyfarfod.

## 886 COFNODION –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2023 fel cofnod cywir.

## 887 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 888 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GGM) 2021/22 (GGM) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r meysydd gweithgareddau a gyflawnwyd gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod y trosolwg hefyd yn helpu i sicrhau bod y nodau, yr amcanion a'r gweithgareddau yn parhau i ganolbwyntio ar amcanion datganedig y sefydliad. Cyfeiriwyd at fanylion cyflawniadau'r flwyddyn ym mharagraffau 2.2 i 2.23 o'r adroddiad.

Wrth gydnabod nad oedd cynrychiolydd o GVS yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad, cytunodd y Cadeirydd, yn dilyn cytundeb gydag Aelodau'r Pwyllgor, y dylid ystyried y mater fel ag y mae o ran cynnwys yr adroddiad.

Yr oedd wedi hynny,

## CYTUNWYD –

(1) Bod Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg 2021/22 yn cael ei nodi.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) I'w hystyried.

## 889 CYFLWYNIAD – IECHYD MEDDWL A LLES EMOSIYNOL – GWYBODAETH A SAFBWYNTIAU'R SECTOR GWIRFODDOL GAN FFORWM IECHYD MEDDWL CAERDYDD A BRO MORGANNWG –

Rhoddodd Linda Newton gyflwyniad i'r Pwyllgor a dechreuodd drwy adrodd bod y Fforwm Iechyd Meddwl yn rhwydwaith o dros 100 o sefydliadau gwirfoddol y trydydd sector â diddordeb mewn iechyd meddwl. Rhannodd y sefydliadau wybodaeth ac arferion da a gwnaethon nhw gymryd rhan mewn dadleuon, ac ati. Roedd y grwpiau

diddordeb yn cynnwys, er enghraifft, Aelodau'r Fro, 30+, gofalwyr, pobl hŷn, gwasanaethau cwnsela, grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, Tai a chyflyrau sy'n Cyd-ddigwydd.

Cynllun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gyfer rôl y trydydd sector oedd cynyddu lefel y gwasanaethau ymyrraeth gynnar, atal a llesiant i gael gwell mynediad at wybodaeth, cyngor ac adnoddau cymunedol a bod yn llais a chydweithio. Er mwyn datblygu'r gwasanaeth roedd angen iddo gael ei gyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar yr unigolyn, bod yn gysylltiedig, cyfannol ac â phwyslais ar y gymuned. Yr heriau yn y dyfodol oedd darparu ystod o wasanaethau gyda phobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a gyda chamau atal yn allweddol er mwyn osgoi argyfwng. Agwedd arall a effeithiodd ar unigolion mewn nifer o ffyrdd oedd costau byw, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a'u trefniadau byw yn ogystal â'r angen i sicrhau bod mynediad digidol ar gael. Ar hyn o bryd roedd rhestrau aros hir ac ôl-groniadau ar gyfer gwasanaethau boed yn rhai statudol a/neu wirfoddol. Roedd atgyfeiriadau'n cynyddu'n rheolaidd, yn ogystal â natur yr atgyfeiriadau hynny. Roedd llawer o wasanaethau wedi dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb hefyd am y rheswm nad oedd gwasanaethau ar-lein yn darparu lefel y gwasanaeth oedd ei hangen. Roedd mynediad ffisegol at wasanaethau yn broblem hefyd wrth i gleientiaid ag anableddau methu'n gynyddol â fforddio costau trafndiaeth. Gwelwyd bod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydabod pwysigrwydd y gymuned leol a datblygiadau dan arweiniad cymheiriaid wrth ddiwallu anghenion nas diwallwyd ar lefel leol yn allweddol i gefnogi'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Roedd y straen, risg a ffactorau lles sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Iechyd Meddwl hefyd yn cynnwys yr effaith economaidd, pwysigrwydd wrth gyfeirio ystyried bod penderfynyddion cymdeithasol iechyd / rhyngweithio cymdeithasol sy'n briodol yn ddiwylliannol yn hanfodol i lesiant a phwysigrwydd gofal cymdeithasol. Yn sail i hyn i gyd roedd yr angen am wybodaeth a mynediad at wybodaeth, boed drwy ddulliau digidol neu ddulliau ffisegol e.e. taflenni, ynghyd ag angen i fapio gwasanaethau. Roedd hi'n amlwg, pan ychwanegwyd haenau ychwanegol at ardal, nad oedd o reidrwydd yn glir sut yr oeddent yn ffitio gyda'i gilydd. Ystyriwyd hefyd fod cyfleoedd hyfforddi ar y cyd yn hanfodol er mwyn gwneud yr holl gysylltiadau ac i lywio gwaith cynllunio gwasanaethau, ac ati.

Ar ôl ystyried y cyflwyniad, cododd Aelod y mater o feithrin cysylltiadau â chanolfannau lleol a gynhaliwyd cyn y cyfnod clo a'r gydnabyddiaeth bod angen hyn wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd fod y cyflwyniad yn codi nifer o gwestiynau ac yn benodol, holodd a oedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth ac adroddodd y cynrychiolydd fod yn well gan fwyfwy o bobl ddychwelyd i gyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb. O ran mynd i'r afael â'r mater o gleientiaid anodd eu cyrraedd, awgrymwyd mai un opsiwn fyddai ystyried cyfleoedd fel cyfarfod mewn tafarndai gan eu bod yn lleoedd cymdeithasol y gallai cleientiaid eu cael yn fwy addas i drafod. O ystyried bod y cynnydd o 70% yn y defnydd o CAMHS yn gynydd sylweddol, gofynnodd y Cadeirydd hefyd beth ellid ei wneud i gefnogi hyn. Dywedodd y cyflwynydd ei fod yn cael ei gydnabod bod Cube yn un asiantaeth a bod cydweithio â sefydliadau drwy gysylltu, gweithio a rhannu gwybodaeth yn allweddol

yn hyn o beth. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn cyflwyniad arall ar yr adolygiad pan oedd ar gael yn dilyn yr adolygiad o Ofal Cymdeithasol. Holodd y Cynghorydd M. Wilson beth allai'r Fro ei wneud i gefnogi pobl ifanc ymhellach, ac adroddodd y cynrychiolydd y gallai rhagor o gyfleoedd gyda cholegau ac ysgolion gynorthwyo yma a mynd allan i siarad â phobl, lle bynnag y byddan nhw'n ymgynnull, er mwyn creu cysylltiadau. Roedd yn ymwneud â buddsoddi amser ac ymdrech mewn pethau ac ystyried pob math o ffyrdd y gellid eu cefnogi.

Yr oedd wedi hyny

CYTUNWYD –

(1) Bod copi o'r cyflwyniad yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth ac ystyriaeth.

(2) Bod cyflwyniad neu adroddiad pellach yn ymwneud â'r Adolygiad Gofal Cymdeithasol (pan fydd ar gael) a diweddariad mewn perthynas â'r Gwasanaeth CAMHS yn cael eu darparu i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Rheswm dros y penderfyniadau

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.